

ACT

TRI

HUNANIAETH

A

CHYDRADDOLDEB

A yw pawb yn cael eu geni'n gyfartal

?

Amcanion

Ystyried yr hyn sy'n diffinio pwy ydym ni ac archwilio materion yn ymwneud â hunaniaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Archwilio defnydd Shakespeare o iaith ac ystyried faint o'i eiriau ac idiomau sydd wedi cael eu gwreiddio yn yr iaith a ddefnyddiwn heddiw.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Saesneg, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd, Dinasyddiaeth, Celf a Dylunio.

Sgiliau a rhagolygon dinasyddiaeth

Cyfathrebu, cydweithio, meddwl yn greadigol, datblygu empathi.

Adnoddau angenrheidiol

Digon o le ar gyfer gwaith ymarferol, papur sgrap, copïau o bapurau newydd, mynediad i'r rhyngrwyd, darnau o'r testun, taflenni gwaith, siswrn ac amlenni.



FFOCWS DYSGU

Ystyried materion yn ymwneud â hunaniaeth a thrin pobl â pharch. Ymchwilio i'r ffordd y caiff iaith Shakespeare ei defnyddio hyd heddiw.

CYFLWYNIAD

Mae gwahanol nodweddion yn ffurfio ein hunaniaeth, a bydd rhai o'r rheini yn datblygu a newid dros amser ac wrth i ni fagu profiad. Mae llawer o ddramâu Shakespeare yn ymdrin â'r mater hwn. Mae'n defnyddio camadnabyddiaeth a chuddwsg i symud y plot ymlaen, yn dangos i ni nad yw pobl bob amser fel y maent yn ymddangos, ac yn edrych ar yr anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng pobl o wahanol ddosbarthiadau, rhywiau a chrefyddau.

? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

Sut rydym yn diffinio ein hunain a beth sy'n siapia pwy ydym ni?

GWEITHGAREDDAU CYNHESU

- Gofynnwch i'r disgyblion symud yn rhydd o gwmpas lle agored.
- Heriwch y disgyblion i stopio symud ac yna ailddechrau eto heb unrhyw orchymyn neu gyfarwyddyd ar lafar. Gadewch iddynt roi cynnig ar hyn sawl gwaith, gan bwysleisio na ddylai'r un ohonynt fod yn 'arweinydd', ond yn hytrach y dylent symud gyda'i gilydd a chydweithio fel tîm.
- Esboniwch i'r disgyblion fod eu timau'n mynd i newid, a gofynnwch iddynt barhau i symud, ond pan fyddwch yn galw arnynt i stopio, dywedwch eich bod am iddynt drefnu eu hunain yn grwpiau amrywiol heb siarad.
- Dechreuwch drwy ofyn iddynt grwpio eu hunain fesul nifer benodol, ac wedyn ymestynnwch hyn fel eu bod yn ffurfio grwpiau sy'n seiliedig ar rinwedd corfforol fel lliw gwallt neu lygaid.
- Efallai y byddwch am wneud hyn eto, ond gan ganolbwyntio ar rinweddau nad ydynt yn rhai corfforol, fel mis geni. Myfyriwch gyda'r disgyblion ynghylch pa grwpiau oedd hawsaf i symud iddynt a pham y gallai hynny fod.

Mae'r gweithgaredd hwn yn ffordd wych o gyflwyno'r cwestiwn ynglŷn â sut mae'n teimlo i gael eich grwpio o fewn cymdeithas, er enghraifft ar sail pryd a gwedd, a bydd hefyd yn esgor ar drafodaethau am y ffaith ei bod yn haws o lawer ymgynnull mewn grwpiau yn y ffordd hon. Gallai rhai pobl gael cysur o wybod yn syth i ble maent yn perthyn. Gallai eraill deimlo'n anghyfforddus neu'n ansicr, neu fel petaent yn colli allan. Gallwch ymestyn hyn drwy roi rhyddid i un grŵp symud tra bod yn rhaid i'r gweddill aros yn llonydd, ac yna ystyried sut y maent yn ymateb i hyn.

Heriwch y disgyblion i awgrymu beth mae hunaniaeth yn ei olygu iddynt hwy, a gwnewch restr o wahanol nodweddion sy'n ffurfio hunaniaeth pobl. Gall y rhain gynnwys rhyw, ffydd, safle yn y teulu, swydd, diddordebau, hil, oedran, lliw llygaid ac ati.

Disgrifiodd y digrifwr Eddie Izzard ei hun ar Twitter fel a ganlyn: **'I'm a British European, I think like an American & I was born in an Arabic country. A supporter of charity. Runner. Political campaigner. Fashion icon. Human.'**

Gofynnwch i'ch disgyblion ddisgrifio eu hunaniaeth eu hunain mewn 140 o nodau neu lai ar ddarnau mawr o bapur.

Wedyn, gallech arddangos y disgrifiadau byr hyn ynghyd â ffotograffau o'ch disgyblion, neu greu cwmwl geiriau o hunaniaeth eich dosbarth drwy fewnbynnu eu holl destun i Wordle yn www.wordle.net. Bydd y 'cymylau' a grëir yn rhoi mwy o bwysigrwydd i'r geiriau sy'n ymddangos amlaf. Gallech hefyd symud ymlaen i greu disgrifiadau byr tebyg o hunaniaeth cymeriadau o ddrama Shakespeare y maent yn gyfarwydd â hi.



ARCHWILIO THEMÂU, SGILIAU A GWERTHOEDD DINASYDDIAETH

? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

Pa rolau a hunaniaethau gwahanol rydym yn ymgymryd â hwy?

Gall ein hymdeimlad o hunaniaeth hefyd fod yn gysylltiedig â'n hymdeimlad o berthyn i grwpiau a chymunedau penodol. Yn **The Merchant of Venice**, caiff Shylock ei weld fel tad, aelod o'r Gymuned Iddewig a benthyciwr arian. Yn **Romeo and Juliet**, mae Juliet yn aelod o deulu Capulet, yn ferch i'w rhieni ac yn wraig ifanc. Pa gymunedau neu grwpiau rydych yn cysylltu cymeriadau Shakespearaidd eraill â hwy?

Gan ganolbwyntio ar ddrama benodol, gofynnwch i'ch disgyblion greu map meddwl â lluniau arno o'r gwahanol grwpiau y mae cymeriadau o'r ddrama yn perthyn iddynt. A oes unrhyw grwpiau y mae'r cymeriadau wedi'u cau allan ohonynt? Sut mae hynny'n effeithio arnynt? Sut mae cuddwisg yn cyfrannu at eu hymdeimlad o hunaniaeth? Yn **Twelfth Night**, rhaid i Viola wisgo fel dyn er mwyn goroesi yn y llys newydd y mae'n rhan ohono. Mae hyn yn digwydd mewn nifer o ddramâu Shakespeare. Ym mha ffyrdd y mae pobl yn cuddio eu gwir hunaniaeth heddiw? Pam maent yn gwneud hyn?



© RSC. Llun gan Reg Wilson.

Trafodwch faterion moesol yn ymwneud â hunaniaeth a chydaddoldeb, er enghraifft cynrychiolaeth merched, statws neu grefydd, y mae'r myfyrwyr wedi dod ar eu traws yn y ddrama Shakespeare y maent yn ei hastudio. Mae'r un themâu yn dal yn berthnasol mewn bywyd modern. Dosbarthwch gopïau o bapurau newydd cenedlaethol neu leol. Gofynnwch i'ch disgyblion ddod o hyd i straeon newyddion cyfoes sy'n dal i ymwneud â'r un materion sy'n ymwneud â hunaniaeth a chydaddoldeb 400 mlynedd ar ôl y cyfnod pan oedd Shakespeare yn ysgrifennu.



© RSC. Llun gan Hugo Glendinning.

DADANSODDIAD MANWL – PARCH AC IAITH EMOSIYNOL

Fel dosbarth, gwyliwch glip fideo a darllenwch y darn o **The Merchant of Venice, Act 1 Golygfa 3**, sy'n dangos pa mor greulon y mae Shylock wedi cael ei drin ar strydoedd Fenis oherwydd ei hunaniaeth fel Iddew. Trafodwch ystyr y llinellau a chymhelliant pob cymeriad dan sylw.

Wedyn, edrychwch ar araith enwog Shylock o **Act 3 Golygfa 1** sy'n dadlau'n huawdl bod pawb yn gyfartal. Trafodwch pam mae'r delweddau yn y darn hwn mor bwerus. Gallech hefyd ofyn i'r disgyblion edrych ar linellau penodol a chreu delweddau corfforol i'w cynrychioli, gan fyfyrir ar unrhyw beth sy'n debyg neu'n wahanol yn eu dewisiadau. A ydynt o'r farn bod Shylock yn anghywir i geisio dial pan na ellir talu'r arian yn ôl?



ARCHWILIO CYMHELLIANT CYMERIADAU

Gall Delweddu fod yn ffordd wych o archwilio cymhelliant ar adegau allweddol. Yma mae'r gweithgaredd yn edrych ar ystyr y llinellau a chymhelliant pob cymeriad, a gellir ei addasu er mwyn helpu disgyblion i feddwl am deimladau Shylock ac ymateb i'r ffordd y caiff ei drin gan eraill yn The Merchant of Venice. Mae enghraifft o sut y gallai hyn weithio gyda Julius Caesar i'w gweld ar dudalen 55 fel rhan o gyfres o weithgareddau, ond gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw destun.

Neu, gallwch ddangos copi o ddeialog Viola a Dug Orsino am gariad yn **Twelfth Night, Act 2 Golygfa 4** i'ch disgyblion. Rhwng gynig ar ei darllen mewn parau, gefn wrth gefn. Sut mae'r ffaith bod Viola wedi gwisgo fel dyn yn newid y sgwrs? Beth mae'r gynulleidfa'n ei ddeall o'i haraith emosiynol na all Orsino ei ddeall? Sut mae hyn yn newid effaith yr iaith?



ARCHWILIO DEIALOG

Mae enghraifft o'r Astudiaeth o Olygfa hon, ac o olygfeydd eraill yn defnyddio Julius Caesar, i'w gweld ar dudalen 59, ond gellir ei defnyddio gydag unrhyw destun.



CYMHWYSO EICH DYSGU – GWEITHGAREDDAU TRAWSGWRICWLAIDD

Dyfynnu Shakespeare

Mae'r delweddau ac ymadroddion enwog yn yr areithiau hyn yn enghraifft o'r nifer fawr o eiriau ac ymadroddion newydd a briodolir i Shakespeare sy'n dal i gael eu defnyddio'n gyffredin heddiw. Mae rhai o'i ddywediadau ac ymadroddion mwyaf cyfarwydd i'w gweld yn y dyfyniad isod gan yr awdur Bernard Levin:

'If your lost property has **vanished into thin air**, you are quoting Shakespeare. If you have ever refused to **budge an inch** or suffered from **green eyed jealousy**, if you have played **fast and loose**, if you have been **tongue tied, a tower of strength, hoodwinked** or **in a pickle** you are quoting Shakespeare... if you think it is **high time** and that is the **long and short of it**, if you believe the **game is up** and that **truth will out**, even if it involves your own **flesh and blood** you are quoting Shakespeare.'

Sawl un o'r ymadroddion hyn y mae eich disgyblion yn eu hadnabod? Torrwch yr enghreifftiau o idiomau Shakespeareaidd cyfarwydd ar **Taflen Weithgaredd 2**. Gofynnwch i'ch disgyblion weithio mewn parau i gyfateb dechrau a diwedd y dyfyniadau enwog hyn. Rhwch gynnig ar ysgrifennu rhai esboniadau syml o'r ymadroddion hyn ar gyfer eich ysgol bartner. A oes ganddynt ddywediadau neu idiomau cyfatebol yn eu hiaith eu hunain?

Fel gwaith cartref, gofynnwch i'ch disgyblion gasglu rhai o'u hoff ddyfyniadau Shakespeare gan eu teuluoedd, athrawon, ffrindiau neu gymdogion. Gall y rhain fod yn bethau y maent hwy eu hunain wedi'u dysgu yn yr ysgol. Gofynnwch iddynt ddysgu am y ddrama a'r olygfa y mae'r dyfyniadau hyn wedi dod ohonynt ac yna gopio'r tesun allan a thynnu llun gan ddefnyddio cyfrwng o'u dewis er mwyn creu llyfr lluniau bendigedig o ddyfyniadau Shakespeare.

ADNODDAU YCHWANEGOL

Anogwch eich disgyblion i ysgrifennu **Cerdd Fywgraffyddol**. Mae hyn yn golygu cerdd syml neu hunanbortread mewn geiriau sy'n dilyn patrwm penodol. Anogwch hwy i gynnwys manylion creadigol a diddorol am eu hunaniaeth a'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw, gan ddilyn y patrwm canlynol:

- Enw cyntaf.
- Cydberthnasau yn eich bywyd: 'Perthyn i...' neu 'ffrind i...'.
- Tri rhinwedd personol.
- Tri pheth rydych wrth eich bodd â hwy, e.e. yn hoff o... siocled, mynd am dro ar lan y môr, y theatr.
- Tri atgof pwysig.
- Tri grŵp rydych yn perthyn iddynt e.e. pêl-droediwr, gitarydd a rhedwr.
- Tri llwyddiant.
- Tri gobaith neu ddymuniad.
- Cartref (lleoliad): 'Yn byw yn...' neu 'yn mynd i ysgol ...'.
- Cyfenw.

Wedyn, rhwch gynnig ar ysgrifennu Cerdd Fywgraffyddol am gymeriad Shakespeareaidd y maent yn gyfarwydd ag ef.

Gallai eich disgyblion hefyd weithio mewn grwpiau bach i gynllunio plot stori fer am rywun sy'n cael ei drin yn wahanol mewn rhyw ffordd. Sut y gellid/dylid datrys y materion hyn? Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno'r straeon byr hyn i weddill y dosbarth





© RSC. Llun gan Rob Freeman.

AC I GLOI...

? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

A ydych yn meddwl ein bod bellach yn byw mewn cymdeithas fwy cyfartal na Shakespeare? Esboniwch pam.

Beth arall y gellid ei wneud i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb?

Yn 2010, pasiodd Llywodraeth y DU y Ddeddf Cydraddoldeb, gan gyfuno mwy na 100 o ddeddfau mewn un Ddeddf, er mwyn amddiffyn unigolion rhag triniaeth annheg a hyrwyddo cymdeithas deg a mwy cyfartal i bawb. Anogwch eich disgyblion i ymchwilio i gamau eraill sydd wedi'u cymryd yn eich gwlad er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, er enghraifft Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy y cytunodd 193 o wledydd arnynt ym mis Medi 2015.

GWEITHGAREDDAU YSGOL BARTNER

- Cymharwch ddisgrifiadau unigol a chymylau geiriau eich dosbarth chi â rhai'r dosbarth yn yr ysgol bartner.
- Crëwch llyfr lluniau o hoff ddyfyniadau Shakespeare eich dosbarth, a'u cyfnewid â'ch ysgol bartner gan ddyfynnu'r ddrama, yr act a'r olygfa y maent wedi dod ohonynt.
- Ymchwiliwch i fywyd a gwaith y prif awduron o wlad eich ysgol bartner a oedd hefyd yn ysgrifennu ar themâu tebyg



GEIRFA

Wordle: adnodd ar gyfer creu cymylau geiriau o destun. Mae geiriau sy'n ymddangos yn amlach yn y testun gwreiddiol i'w gweld yn fwy amlwg yn y cymylau.

Cerdd Fywgraffyddol: Mae Cerddi Bywgraffyddol yn dilyn fformat penodol 11 llinell o hyd. Gall awduron ddefnyddio'r cerddi hyn i ddeall ffigur hanesyddol, cymeriad ffuglennol neu eu hunain yn well.

The Merchant of Venice Act 1 Golygfa 3

Shylock Signior Antonio, many a time and oft
In the Rialto you have **rated** me
About my moneys and my usances.
Still have I borne it with a patient shrug,
For **sufferance** is the badge of all our tribe.
You call me misbeliever, cut-throat dog
And spit upon my Jewish **gabardine**,
And all for **use** of that which is mine own.
Well then, it now appears you need my help.
Go to, then. You come to me and you say
Shylock, we would have moneys' – you say so,
You that did **void** your **rheum** upon my beard.
And **foot** me as you spurn a **stranger cur**
Over your threshold. Moneys is your **suit**.
What should I say to you? Should I not say,
'Hath a dog money? Is it possible
A cur should lend three thousand ducats?' Or
Shall I bend low and in a **bondman's key**,
With **bated** breath and whisp'ring humbleness,
Say this: 'Fair sir, you spat on me on Wednesday last;
You **spurned** me such a day; another time
You called me dog, and for these courtesies
I'll lend you thus much moneys'?



© RSC. Llun gan Ellie Kurtz.

! TROSOLWG

Yn The Merchant of Venice, Act 1 Golygfa 3, mae Antonio, sy'n fasnachwr, wedi gofyn am arian gan Shylock, sy'n fenthyciwr arian ac yn Iddew. Yn yr araith hon, mae Shylock yn ymateb i'w gais diweddaraf.

✍ NODIADAU

rated: dweud y drefn, ceryddu (chwarae ar y gair 'rate')

sufferance: dygnwch

gabardine: clogyn neu got lac

use: cyflogaeth (chwarae ar y syniad o 'fudd ariannol')

Go to: anfon rhywun ymaith yn ddiamynedd

void: dadlwytho, gwagio

rheum: poer

foot: cicio/gwrthod

stranger cur: ci dieithr

suit: cais

bondman's key: tôn gwas

bated: isel

spurned: dirmygu/gwrthod

The Merchant of Venice

Act 3 Golygfa 1

Shylock I am a Jew. Hath not a Jew eyes? Hath not a Jew hands, organs, **dimensions**, senses, **affections**, **passions**? Fed with the same food, hurt with the same weapons, subject to the same diseases, healed by the same means, warmed and cooled by the same winter and summer as a Christian is? If you prick us do we not bleed? If you tickle us do we not laugh? If you poison us do we not die? And if you wrong us shall we not revenge?



© RSC. Llun gan Hugo Glendinning.



TROSOLWG

Yn The Merchant of Venice, Act 3 Golygfa 1, mae Shylock yn esbonio i ddau Gristion ei fod o ddifrif ynglŷn n â thelerau ei fenthyciad i Antonio, a bod pawb yn profi'r un emosiynau, gan gynnwys bod ag awydd dial.



NODIADAU

dimensions: rhannau o'r corff

affections: emosiynau/cariad

passions: emosiynau pwerus

Twelfth Night

Act 2 Golygfa 4

Viola Ay, but I know—

Orsino What dost thou know?

Viola Too well what love women to men may owe:

In faith, they are as true of heart as we.

My father had a daughter loved a man,

As it might be, perhaps, were I a woman,

I should your lordship.

Orsino And what's her **history**?

Viola A blank, my lord. She never told her love,

But let concealment, like a worm i' the bud,

Feed on her **damask** cheek: she pined in thought,

And with a **green and yellow** melancholy

She sat like **patience on a monument**,

Smiling at grief. Was not this love indeed?

We men may say more, swear more: but indeed

Our **shows** are more than will; for still we prove

Much in our vows, but little in our love.

! TROSOLWG

Yn Twelfth Night, Act 2 Golygfa 4, mae Viola wedi gwisgo fel dyn. Mae wedi bod yn gweithio i Ddug Orsino, a roddodd swydd iddi fel gwas o'r enw Cesario, ond mae hi wedi syrthio mewn cariad ag ef.

✍ NODIADAU

history: stori

damask: pinc, fel rhosyn Damascus

green and yellow: gwael, gwelw a llwyd

patience... monument: ffigur wedi'i gerfio ar gofeb

shows: dangos yn allanol



© RSC. Llun gan Reg Wilson.



ADNODDAU

- Siswrn
- Amlenni
- Peniau
- Papur

Llungopiwch a thorrwch y dyfyniadau Shakespeare canlynol a'u rhoi yn yr amlenni. Rhewch amlen i bob grŵp a gofynnwch iddynt gyfateb dechrau a diwedd yr ymadroddion.

 All that glisters...	...is not gold
All's well that...	...ends well
Brave new...	...world
Budge an...	...inch
Eaten me out of...	...house and home
If music be the food of love...	...play on
Be all...	...and the end all
Dead as a...	...doornail
Knock knock...	...who's there
Wild goose...	...chase
Break the...	...ice
Own flesh...	...and blood